

## Creu tirwedd glai

Creu tirwedd fechan ddychmygus gan ddefnyddio clai

### Trosolwg

---

Yn y gweithgaredd cyfoethog hwn bydd y plant yn:

- Ymchwilio i glai ac yn gwneud potiau clai
- Edrych ar wrthrychau wedi'u gwneud o glai ac yn dod o hyd i wybodaeth am artistiaid ceramig
- Creu eu gwaith celf miniatur eu hunain
- Creu un cerflun mawr ar y cyd gan ddefnyddio clai heb ei danio
- Creu ac adrodd stori

### Cyfoethogi

---

- Cyfleoedd posibl i gydweithio ag artistiaid, storiwyr, ffotograffwyr, gwneuthurwyr ffilmiau.

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

---

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh)  
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu  
Datblygu Creadigol  
Datblygiad Corfforol  
Datblygu Sgiliau Meddwl  
Cwricwlwm Cymraeg

## Adnoddau y mae angen sicrhau eu bod ar gael

---

- Clai ysgol priddwaith neu 'earthenware' (bwff) – ar gael gan gyflenwyr deunyddiau crefftau (e.e. potterycrafts.co.uk). Archebwch y lliw 'school buff' (clai cyffredin sy'n hawdd ei ddefnyddio) ac, os hoffech liw arall, 'red terracotta'
- Papur newydd a gorchudd plastig
- Rholbren a chlwytyn
- Teganau ysgol y gellir eu golchi
- Deunyddiau naturiol – dail, moch coed, brigau ac ati
- Llwyau a ffyrc plastig
- Paent yr ysgol
- Slip clai gwyn (clai ar ffurf hylif yw hwn – clai amrwd wedi'i gymysgu â dŵr a phaent. I gael mwy o wybodaeth am sut i wneud hwn edrychwch ar dasg 5)
- Ffedogau / hen ddillad
- Plastr i ymestyn y defnydd o'r clai
- Camerâu digidol a thrybedd

## Adnoddau sy'n cael eu cynnwys

---

Taflen Adnodd 1: Stori – Elidyr yn y Byd Arall

## Paratoi

---

- Gorchuddiwch fwrdd yn yr ystafell ddosbarth (neu du allan) gyda papur newydd a gorchudd plastig
- Rhowch wrthrychau, cerdyn/papur newydd o dan y gorchudd plastig i greu effaith tirwedd donnog
- Rholiwch haenau o glai a'u rhoi dros y lliain plastig, gan greu sylfaen glai sy'n gorchuddio'r bwrdd
- Gadewch i'r dirwedd ddatblygu dros wythnos os yn bosibl.

Tasg 1: Dod o hyd i wybodaeth am Glai a Gwneud Potyn Clai	Cydweithredu ac Adnoddau	Llwybrau cynnydd posibl y FfLIRh gan gynnwys Llwybrau Dysgu
<p><b>TRAFOD</b> - Beth yw clai? Gadewch i'r disgyblion ddal darn bach o glai. Sut mae'n teimlo? A yw'n oer neu'n boeth? A yw'n llyfn neu'n arw?</p> <p>Pa mor drwm ydyw? Cymharwch bwysau'r clai â gwrthrychau eraill e.e. 'Rwy'n meddwl bod y clai yn ysgafnach na llyfr.'</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Pwyswch y clai</li> <li>○ O ble mae clai yn dod?</li> </ul> <p><b>GWNEUD</b> – Rholiwch ddarn bach o glai yn belen, gwthiwch eich bys bawd i'r canol a gwasgwch y bys a'r bawd gyda'i gilydd i wneud potyn bach.</p> <p><b>GWYLIO</b> - Edrychwch ar amrywiaeth o wrthrychau sydd wedi'u creu o glai – potiau, platiau, cwpanau yn y cartref (mae llawer o syniadau yn y golofn cydweithredu. Gallwch hefyd ddod â gwrthrychau ceramig i'r ysgol o gartref).</p> <p><b>TRAFOD</b> – Siaradwch am y broses o <b>danio clai</b>. Gofynnwch i'r disgyblion ddyfalu'r amser a'r tymheredd sydd ei angen i newid y clai.</p>	<p>Cysylltwch â'r sefydliadau isod os hoffech ddod o hyd i grochenydd/artist ceramig lleol a allai roi mewnbwn arbenigol.</p> <p>Crochenwyr De Cymru <a href="http://www.southwalespotters.org.uk/">http://www.southwalespotters.org.uk/</a></p> <p>Fireworks <a href="http://www.fireworksclaystudios.org/">http://www.fireworksclaystudios.org/</a></p> <p><u>Lluniau yn dangos y defnydd o gerameg yn y cartref</u></p> <p>Casgliad Ceramig Prifysgol Aberystwyth <a href="http://www.ceramics-aberystwyth.com/a-z-makers-countries.php">http://www.ceramics-aberystwyth.com/a-z-makers-countries.php</a></p> <p>V&amp;A <a href="http://www.vam.ac.uk/content/articles/a/a-to-z-of-ceramics/">http://www.vam.ac.uk/content/articles/a/a-to-z-of-ceramics/</a></p> <p>Casgliad Amgueddfa Cymru - <a href="http://www.amgueddfacymru.ac.uk/caerdydd/celf/cymwysedig/crochen-waith-phorslen-cymru/">http://www.amgueddfacymru.ac.uk/caerdydd/celf/cymwysedig/crochen-waith-phorslen-cymru/</a></p> <p>Amgueddfa Prydain <a href="http://www.britishmuseum.org/research/collection_online/search.aspx?">http://www.britishmuseum.org/research/collection_online/search.aspx?</a></p>	<p><b>Llythrennedd Llafaredd</b></p> <p>LLS1: mynegi barn</p> <p>LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau</p> <p>LLG1: gwrando ar eraill</p> <p>LLG3: gofyn cwestiynau</p> <p>LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth</p> <p>LLC2: siarad yn bwrpasol er mwyn cwblhau tasg</p> <p><b>Rhifedd</b></p> <p>M.1: trosglwyddo sgiliau</p> <p>M.4: defnyddio strategaethau</p> <p><b>Defnyddio sgiliau mesur</b></p> <p>M1: Cymharu gwrthrychau</p> <p>M5: Cysyniad o amser</p>

<p><b>(Gwybodaeth i athrawon</b> – Caiff clai ei danio mewn ffwrn dwym (o'r enw odyn) i'w wneud yn gryf ac mae'n cymryd 2 ddiwrnod i odyn danio clai. Dangoswch botyn blodau terracotta i'r plant, fel enghraifft o wrthrych wedi'i danio. Caiff gwaith ceramig fel arfer ei grasu ddwywaith. Tanio bisg yw Cam 1 sy'n newid y clai amrwd yn rhywbeth sy'n debyg i botyn blodyn pridd (earthenware). Mae'r tymheredd y tu mewn i'r odyn yn boeth iawn – rhaid iddo gyrraedd tua 1000°C er mwyn i'r newid hwn ddigwydd.</p> <p>Mae Cam 2 yn cynnwys tanio gwydredd (glaze firing). Mae gwydredd yn cynnwys silica yn bennaf (y cemegyn sy'n gwneud gwydr) a chemegau eraill – gan gynnwys sodiwm a photasiwm – sy'n adweithio i greu lliw. Nid yw gwydredd wedi'i wneud o baent). Mae tanio gwydredd yn digwydd ar dymheredd uwch. Mae hyn yn aeddfedu'r clai a'r gwydredd ar yr un pryd. Y tymheredd cyffredin ar gyfer priddwaith yw 1180°C ond mae crochenwaith caled yn cael ei danio ar dymhereddau uwch -1230°C to 1300°.</p> <p>Gafaelwch mewn mwg/powlen/plât ceramig. A oes gennych unrhyw beth gartref sydd wedi'i wneud o glai? Cymharwch y clai amrwd sydd gennych yn y dosbarth â'ch gwrthrych. Beth sydd wedi digwydd i'r clai? Sut mae wedi newid? Pwyswch y clai i weld a yw'n drymach cyn neu ar ôl iddo gael ei danio.</p> <p><b>DOGFENNU</b> – Tynnwch luniau o'r potiau clai a wnaeth y</p>	<p><a href="#">searchText+=ceramics&amp;images=true</a></p> <p>Yr Amgueddfa Gelf Fetropolitan <a href="http://www.metmuseum.org/collection/the-collection-online">http://www.metmuseum.org/collection/the-collection-online</a></p> <p>Ceramics Daily <a href="http://ceramicartsdaily.org/">http://ceramicartsdaily.org/</a></p> <p>Studio Potters <a href="http://www.studiopottery.co.uk/">http://www.studiopottery.co.uk/</a></p> <p><u>Ffilmiau byrion o Grochenwyr</u></p> <p>Goldmark Gallery <a href="https://www.youtube.com/user/GoldmarkGallery">https://www.youtube.com/user/GoldmarkGallery</a></p> <p><u>Ymchwilio i Artistiaid Unigol:</u> Morgan Hall, Wally Keeler, Lowri Davies, Phil Rogers, Clive Bowen, Gwilym Thomas</p> <p><u>Darllen ac ymchwil pellach</u></p> <p>Tseina Gaudy Welsh: Hanes, Technoleg, Dylunio ac Addurno -Jennifer Lewis <a href="http://www.interpretingceramics.com/issue013/articles/02.htm">http://www.interpretingceramics.com/issue013/articles/02.htm</a></p> <p>Crochenwaith Llanelli; A Welsh Metonym-Kathy Talbot <a href="http://www.interpretingceramics.com/issue013/articles/01.htm">http://www.interpretingceramics.com/issue013/articles/01.htm</a></p> <p>Prifysgol Aberystwyth – Ysgol Gelf –Crefftiau Gwledig Cymru – Cerameg <a href="http://museum.aber.ac.uk/collections-welshfolkcraft-ceramics.php">http://museum.aber.ac.uk/collections-welshfolkcraft-ceramics.php</a></p> <p>Amgueddfa Nantgarw <a href="http://nantgarwchinaworksmuseum.co.uk/">http://nantgarwchinaworksmuseum.co.uk/</a></p> <p>Crochenwyr Gogledd Cymru</p>	<p>M7: Disgrifio tymheredd</p>
--	---	--------------------------------

<p>plant, ac unrhyw wrthrychau eraill y daethpwyd â hwy i'r ystafell ddosbarth. Argraffwch y lluniau a dechreuwch greu 'Llyfr am Glai'. Gallech gynnwys unrhyw ymatebion ysgrifenedig gan y plant yn ogystal â'u darluniau.</p> <p><b>GWAITH ESTYNEDIG</b> Taniwch y potiau clai bach os yn bosibl</p>	<p><a href="http://myweb.tiscali.co.uk/rikthepotter/nwp/">http://myweb.tiscali.co.uk/rikthepotter/nwp/</a></p>	
--	--	--

<b>Tasg 2: Ymchwilio i waith artistiaid ceramig.</b>	<b>Cydweithredu ac Adnoddau</b>	<b>Llwybrau cynnydd posibl y FfLIRh– gan gynnwys Llwybrau Dysgu</b>
<p><b>GWYLIO</b> – Edrychwch ar yr amrywiaeth o waith a wneir gan artistiaid ceramig cyfoes, yn enwedig yng Nghymru (Mae llawer o adnoddau ar-lein gyferbyn)</p> <p><b>TRAFOD</b> – Pa rai ydych chi'n eu hoffi fwyaf? Sut maen nhw'n gwneud i chi deimlo? Beth yw'r gwahaniaethau rhyngddynt? Pa fath o bethau yr hoffech chi eu gwneud? Pa fath o bethau y gellir eu gwneud o glai?</p> <p>Dewiswch eich hoff artistiaid a ffotograffau/lluniau o'u</p>	<p>Gwahoddwch artist ceramig lleol i'r ysgol er mwyn dod â gwaith i mewn a siarad am ei ymarfer</p> <p><u>Ymchwiliwch i artistiaid ceramig o Gymru:</u> Ann Gibb, Catrin Howell, Clare Twomey, Keith Harrison, Claire Curneen, David Cushway, Gwen Heeney, Kate Malone</p> <p>Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd <a href="http://cardiff-school-of-art-and-design.org/baceramics/links/">http://cardiff-school-of-art-and-design.org/baceramics/links/</a> Canolfan Grefft Rhuthun</p>	<p><b>Llythrennedd Llafaredd</b> LLS1: mynegi barn LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLS3: sgwrs fwy estynedig LLG1: gwrando ar eraill LLG3: gofyn cwestiynau LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: cwblhau tasg</p>

<p>gwaith. Yna <b>CRÛWCH</b> oriel gelf o luniau yn yr ystafell ddosbarth</p>	<p><a href="http://www.canolfangrefftrhuthun.org.uk/">http://www.canolfangrefftrhuthun.org.uk/</a> Crefft yn y Bae <a href="http://www.makersguildinwales.org.uk/">http://www.makersguildinwales.org.uk/</a> Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth <a href="https://www.aberystwythartscentre.co.uk/cy/siop-grefftau-dylunio">https://www.aberystwythartscentre.co.uk/cy/siop-grefftau-dylunio</a> Lluniau o waith celf gyfoes a cherameg cerfluniol, V&amp;A <a href="http://collections.vam.ac.uk/search/">http://collections.vam.ac.uk/search/</a> Centre of Ceramic Art <a href="http://www.centrefceramicart.org.uk/">http://www.centrefceramicart.org.uk/</a> Casgliad Amgueddfa Cymru <a href="http://www.amgueddfacymru.ac.uk/caerdydd/celf/cymwysedig/crefftwaith-cyfoes/">http://www.amgueddfacymru.ac.uk/caerdydd/celf/cymwysedig/crefftwaith-cyfoes/</a> Yr Amgueddfa Gelf Fetropolitan <a href="http://www.metmuseum.org/collection/the-collection-online/search?ft=ceramics&amp;ao=on&amp;noqs=true">http://www.metmuseum.org/collection/the-collection-online/search?ft=ceramics&amp;ao=on&amp;noqs=true</a> Access Ceramics <a href="http://accessceramics.org/">http://accessceramics.org/</a> Oriel Tate <a href="http://www.tate.org.uk/search/ceramics">http://www.tate.org.uk/search/ceramics</a></p>	
---	---	--

Tasg 3: Gwneud darn o Waith Celf miniatur	Cydwethredu ac Adnoddau	Llwybrau cynnydd posibl y FFLIRh
<ul style="list-style-type: none"> <li>○ <b>GWYLIO</b> – Edrychwch ar artistiaid sy'n gweithio gyda'r tirweddau ffotograffiaeth miniatur a macro.</li> <li>○ <b>DARLEN/TRAFOD</b> Darllenwch a siaradwch am storïau sydd â themâu miniatur megis 'The Borrowers' <b>CASGLU</b> - pethau bach o'r ystafell ddsbarth a thu allan iddi er mwyn creu byd miniatur (i'w ddefnyddio yn nhasg 5).</li> <li>○ <b>PROFI</b> – cymerwch chwyddwydr ac edrychwch ar y byd miniatur o'n cwmpas</li> <li>○ <b>GWNEUD</b> – paentiad miniatur ar gerdyn post neu greu byd miniatur mewn bocs matsis i ychwanegu at oriel yr ystafell ddsbarth. Fel arall, gwnewch fodel miniatur o glai neu lego / crëwch ardd finiatur ar hen blât neu hambwrdd / archwiliwch dai doliau / ymchwiliwch i hanes portreadau miniatur a/neu gasgliadau stampiau.</li> <li>○ <b>DOGFENNU</b> – Defnyddiwch ipads i ddogfennu a chofnodi gwaith y disgyblion a'u dialog yn y gweithgaredd hwn. Gellir ychwanegu'r rhain at oriel yr ystafell ddsbarth ynghyd â lluniau o waith unrhyw artistiaid newydd rydych wedi'u canfod.</li> </ul>	<p>Ffotograffwyr</p> <p>Ffotogallery <a href="http://www.fffotogallery.org/">http://www.fffotogallery.org/</a></p> <p><u>Lluniau o'r defnydd o'r miniatur mewn gwaith celf</u></p> <p>V&amp;A <a href="http://www.vam.ac.uk/blog/tag/dolls-houses">http://www.vam.ac.uk/blog/tag/dolls-houses</a></p> <p>Vads <a href="http://www.vads.ac.uk/">http://www.vads.ac.uk/</a></p> <p><u>Ceisiwch gynnwys yr Artistiaid canlynol:</u> Lori Nix, Gregory Euclide, Audrey Heller, Matthew Albanese, Willard Wigan, Wally French AKA Richard Higlett, Little Big Art - Andy Morris,</p> <p>Minimiam <a href="http://www.minimiam.com/">http://www.minimiam.com/</a></p>	<p><b>Llythrennedd Llafaredd</b></p> <p>LLS1: mynegi barn LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLS3: sgwrs fwy estynedig LLG1: gwranddo ar eraill LLG3: gofyn cwestiynau LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: cwblhau tasg</p> <p><b>Rhifedd</b></p> <p>M.1: trosglwyddo sgiliau M.4: defnyddio strategaethau CA2.11: defnyddio iaith fathemategol <b>Defnyddio sgiliau mesur</b> M1: Cymharu gwrthrychau</p>



Tasg 4: Creu cam cyntaf y dirwedd glai.	Dolenni ar-lein i luniau a cerddoriaeth	Cofrestru	LNF progression pathways
<p><i>Sicrhewch fod haen sylfaenol eich tirwedd glai wedi'i pharatoi yn barod (fel y nodwyd yn yr adran agoriadol ar dudalen 3 o dan 'Paratoi'). Nodwch y gellir ailddefnyddio clai am gyfnod yn ei gyflwr amrwd cyhyd â'i fod yn cael ei orchuddio â gorchudd plastig.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <b>TRAFOD fel dosbarth</b> – Pa fath o dir y byddwn ni'n ei greu?</li> <li>○ <b>GWYLIO</b> – edrychwch ar luniau o wahanol fathau o dirweddau y mae artistiaid wedi'u creu er mwyn cael ysbrydoliaeth ar gyfer tirwedd glai eich dosbarth (gweler y dolenni gyferbyn)</li> <li>○ <b>CYNLLUNIO</b> tirwedd glai eich dosbarth gan ddefnyddio brasluniau, lluniau, geiriau.</li> <li>○ <b>GWNEUD</b> – Rhowch ddarnau o glai ar arwyneb clai'r dirwedd ac ychwanegwch wead gydag offer gwahanol. Defnyddiwch hen ffyrac a llwyau, brigau a gwrthrychau eraill i wthio'r clai i'w le.</li> <li>○ <b>ADOLYGU</b> tirwedd glai eich dosbarth. A wnaeth eich cynllun weithio?</li> <li>○ <b>DOGFENNU</b> golygfa newidiol eich tirwedd o un safbwynt neu fan i'w ddefnyddio mewn ffilm stop-symudiad.</li> </ul>	<p>Amgueddfa Cymru - <a href="http://www.amgueddfacymru.ac.uk/celf/arlein/">http://www.amgueddfacymru.ac.uk/celf/arlein/</a></p> <p>National Geographic <a href="http://photography.nationalgeographic.com/photography/photo-of-the-day/landscapes/">http://photography.nationalgeographic.com/photography/photo-of-the-day/landscapes/</a></p> <p>Oriol Tate <a href="http://www.tate.org.uk/learn/online-resources/glossary/l/landscape">http://www.tate.org.uk/learn/online-resources/glossary/l/landscape</a></p> <p>V&amp;A <a href="http://collections.vam.ac.uk/search/">http://collections.vam.ac.uk/search/</a></p> <p>Artistiaid y mae'n werth ymchwilio iddynt:</p> <p>Vija Celmins, Richard Wilson, David Nash, Graham Sutherland, Iwan Bala, Brendan Stuart Burns, John Brett, Kyffin Williams</p>		<p><b>Llythrennedd</b> <b>Llafaredd</b></p> <p>LLS1: mynegi barn LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLS3: sgwrs fwy estynedig LLG1: gwranddo ar eraill LLG3: gofyn cwestiynau LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: cwblhau tasg</p>



Tasg 5: Ychwanegu gwrthrychau, lliw a gwead i'r dirwedd finiatur.	Cydweithredu ac Adnoddau	Llwybrau cynnydd posibl y FFLIRh
<p><b>TRAFOD</b> gyda'ch gilydd fel dosbarth – Pa wrthrychau wnawn ni eu hychwanegu at y dirwedd? Pa fath o le rydyn ni eisiau ei greu?</p> <p><b>GWNEUD</b> - Gan weithio gyda'ch gilydd, gwnewch dirwedd newidiol a/neu, mewn paru, crëwch dirwedd bocs cardfwrdd. (Ystyriwch - a yw eich tirwedd yn dirwedd gynhanesyddol neu folcanig? A oes ffyrdd neu drac trenau? Ydych chi am greu morlun? Tirwedd y lleuad? Neu dirwedd wledig/fferm?) Sicrhewch fod teganau a gwrthrychau y gallwch eu golchi ar gael - e.e. ceir/trenau/deinosoriaid/anifeiliaid/cychod ar gyfer chwarae creadigol. Gallwch hefyd gyflwyno gwrthrychau a gasglwyd o dasgau blaenorol. Gellir gwthio gwrthrychau ag arwynebedd â gwead i'r clai er mwyn creu patrwm.</p> <p><b>ADDURNO</b> Paentiwch eich tirwedd neu arllwyswch slip* lliw drosti</p> <p><i>*Slip yw'r term a ddefnyddir mewn cerameg i gyfeirio at glai hylif a ddefnyddir i addurno gwrthrych clai cyn iddo gael ei danio. I wneud eich slip eich hun, cymysgwch glai sych gwyn/llwyd (mae angen iddo fod ar ffurf powdr neu mewn darnau bach), gyda dŵr nes iddo droi'n hufennog. Yn dilyn hynny ychwanegwch ychydig o baent er mwyn creu lliw (bydd paent ysgol arferol sy'n baent dŵr yn iawn. Gallwch wneud cyfres o botiau bach slip lliw a'u cadw wedi'u selio neu eu gorchuddio er mwyn eu hatal rhag sychu.</i></p> <p><b>TRAFOD</b> Beth yw maint eich tirwedd? Beth fydd maint ei nodweddion? Pa siapiau</p>	<p>Ymchwiliwch i waith yr artist, Phoebe Cummings</p> <p><a href="http://www.vam.ac.uk/content/articles/c/phoebe-cummings/">http://www.vam.ac.uk/content/articles/c/phoebe-cummings/</a></p> <p><a href="https://www.youtube.com/watch?v=lydgiyyRVXg">https://www.youtube.com/watch?v=lydgiyyRVXg</a></p> <p>neu chwiliwch am luniau Phoebe Cummings ar-lein</p>	<p><b>Rhifedd</b></p> <p>M.1: trosglwyddo sgiliau M.4: defnyddio strategaethau CA2.11: defnyddio iaith fathemategol <b>Defnyddio sgiliau mesur</b> M1: Cymharu gwrthrychau</p>

<p>gwahanol y gallwch eu defnyddio yn eich tirwedd?</p> <p>Gallwch ychwanegu slipiau lliw i'ch tirwedd a gwasgu siapiau a gwrthrychau i wyneb y clai er mwyn creu patrwm a gwead.</p> <p><b>DOGFENNU</b> golygfa newidiol eich tirwedd o un safbwynt neu fan i'w ddefnyddio mewn ffilm stop-symudiad.</p>		
---	--	--

## Tasg 6: Creu stori gan ddefnyddio'r dirwedd

- **DARLLEN** stori **Elidyr yn y Byd Arall** (Adnodd 1) i'r plant
  - **EDRYCH** - ar y Dirwedd neu'r Byd Arall rydych wedi'i greu
  - **DYCHMYGU** – y bobl neu'r anifeiliaid sy'n byw yno.
  - **TRAFOD**
- Sut maen nhw'n edrych?
  - Sut maen nhw'n byw?
  - Pa broblemau sydd ganddyn nhw?
  - Sut maen nhw'n datrys eu problemau?

Pan fydd y plant wedi ateb eu cwestiynau, bydd ganddyn nhw flociau adeiladu ar gyfer eu stori eu hunain.

- **ADRODD** neu **BERFFORMIO'R** stori
- **YSGRIFENNU'R** stori

## Cydweithredu ac Adnoddau

Efallai yr hoffech gydweithio â storiwr neu awdur ar gyfer y dasg hon.

<http://www.literaturewales.org/rhestr-o-awduron/>

## Llwybrau cynnydd posibl y FflIRh – gan gynnwys Llwybrau Dysgu

### *Llythrennedd* *Llafaredd*

LLS1: mynegi barn  
LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau  
LLS3: sgwrs fwy estynedig  
LLG1: gwrando ar eraill  
LLG3: gofyn cwestiynau  
LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth  
LLC2: cwblhau tasg

### *Darllen*

DS2: strategaethau darllen  
DS6: nodweddion testun  
DS6a: geiriau allweddol  
DD2: ailddweud storïau  
DD3: adnabod gwybodaeth  
DD6: defnyddio profiad  
DYD1: mynegi barn am wybodaeth yn y testun  
DYD3: gwneud cysylltiadau

### **Ysgrifennu:**

YY1: creu ac arddweud brawddeg sy'n disgrifio digwyddiadau, profiadau a lluniau i gyfleu ystyr

		<p>YY2: cyfathrebu drwy ddefnyddio symbolau a lluniau.          YY3: sgwrsio am yr hyn y maent yn mynd i'w ysgrifennu          YS1: dilyn strwythur          YG4: sillafu          YG6: ymarfer ysgrifennu</p>
<p><b>Nodiadau'r Athro ar Ddogfennu</b></p> <p><b>TRAFOD</b> – Sut i gofio beth sydd wedi cael ei wneud</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gan fod llawer o'r gwaith yn waith dros dro, mae dogfennu yn hanfodol er mwyn cadw tystiolaeth o'r broses creadigol a'r gwaith gorffenedig</li> <li>➤ Cymerwch nifer o luniau o'r un olygfa wrth i'r gwaith fynd rhagddo – gellir troi hyn yn animeiddiad stop-symudiad.</li> <li>➤ Cynorthwyt y plant i ddefnyddio'r camera er mwyn atgyfnerthu gwerth y gwaith a defnyddiwyd fodd macro os yw ar gael.</li> <li>➤ Tynnwch luniau o'r plant wrth eu gwaith yn ogystal â'r darn gorffenedig ar ei ben ei hun</li> <li>➤ Golygfa o'r awyr – sefwch ar gadair/bwrdd</li> <li>➤ Penliniwch a thynnu'r llun o safbwynt plentyn</li> <li>➤ Defnyddiwch drybedd fach i helpu i gadw'r llun yn glir ac yn llonydd</li> <li>➤ Bydd y modd macro ar y camera yn golygu y gallwch gael golwg agos glir, er mwyn dangos gwead, ac er mwyn closio at ddwylo'r plant wrth eu gwaith</li> <li>➤ Defnyddiwch olau naturiol yn hytrach na fflach lle y bo'n bosibl</li> </ul>		

## Gwybodaeth Dechnegol am sut i ailgylchu clai sydd wedi sychu

Sychwch eich hen glai a'i gadw mewn bag er mwyn ei ailgylchu pan fyddwch yn barod.

- Arllwyswch y clai sych i fwced a'i llenwi â ddŵr. (Gwisgwch fwgwd llwch wrth wneud hyn).
- Gadewch iddo socian am ychydig oriau (dros nos os yn bosibl).
- Dylai fod y clai yn feddal (slwtsh). Ychwanegwch fwy o ddŵr os bydd angen.
- Cymysgwch y clai
- Arllwyswch y clai meddal ar arwyneb gwaith mawr er mwyn iddo sychu
- Pan fydd y gwaelod wedi sychu ychydig, trowch y clai drosodd. Parhewch i'w droi drosodd a'i dylino fel hyn.
- Pan fydd y clai o'r ansawdd cywir, torrwrch ef yn ddarnau bach.
- Er mwyn homogoneiddio'r clai ymhellach, torrwrch ef a chymysgwch ddarnau gwahanol gyda'i gilydd a'i dorri eto.

Nodwch y bydd y clai meddal yn caledu'n gynt ar yr ochr isaf yn hytrach na'r ochr uchaf, oherwydd bod y plastr yn amsugno'r lleithder.

## Asesu mewn perthynas â'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd

Gallai'r dysgwyr arddangos nifer o elfennau ac agweddau ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wrth iddynt wneud y gweithgaredd hwn. Rhestrir y prif feysydd y dylid canolbwyntio arnynt yn y tablau isod.

Llythrennedd			
Llinyn	Elfen	Agwedd	
Llafaredd ar draws y cwricwlwm	Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	
		Gwranddo	
		Cydweithio a thrafod	
Darllen ar draws y cwricwlwm	Dod o hyd i wybodaeth, ei dewis a'i defnyddio	Strategaethau darllen	
		Darllen a deall	
		Ymateb a dadansoddi	
Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm	Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, dibenion, darllenwyr	
		Strwythur a threfn	
	Ysgrifennu'n gywir	laith	
		Cystrawen; Atalnodi; Sillafu; Llawysgrifen	

Rhifedd		
Llinyn	Elfen	
Datblygu ymresymu rhifyddol	Adnabod prosesau a chysylltiadau	
	Cynrychioli a chyfathrebu	
	Adolygu	
Defnyddio sgiliau rhif	Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau	
	Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb	
	Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig	
	Amcangyfrif a gwirio	
	Rheoli arian	
Defnyddio sgiliau mesur	Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd	
	Amser	
	Tymheredd	
	Arwynebedd a chyfaint; Ongl a safle	
Defnyddio sgiliau data	Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau	